

Rhif: WG24130



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Gorchmynion Statudol o dan Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2015



ISBN digidol 978 1 4734 3139 3
© Hawlfraint y Goron 2015
WG24130

1. Yr Ymarfer Ymgynghori

Roedd yr ymarfer ymgynghori yn holi barn ar yr offerynnau statudol sy'n gysylltiedig â Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2014 ac sydd i'w gweithredu yn ystod Gwanwyn 2015.

Mae Rhan 2 y Ddeddf yn cyflwyno system newydd i fynd i'r afael â digartrefedd a'r bygythiad o ddigartrefedd, gan gynnwys llawer mwy o bwyslais ar rwystro digartrefedd yn y lle cyntaf. Cafodd hyn ei sicrhau drwy gryfhau rôl rhwystro yn y dyletswyddau sydd gan Lywodraeth Leol i bobl ddigartref.

Prif nodweddion Rhan 2 yw:

- Sicrhau mwy o ganolbwyntio hyd yn oed ar rwystro digartrefedd yn y lle cyntaf.
- Ymestyn hawl nifer o ymgeiswyr a fyddai â hawl i gyngor a chymorth yn unig o dan y ddeddfwriaeth bresennol.
- Ysgafnhau y baich ar lety yr awdurdodau lleol drwy ganiatâu i Awdurdodau gyflawni eu dyletswyddau ym maes digartrefedd mewn llety rhent preifat addas.
- Mwy o ddyletswydd ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gydweithio gydag Awdurdodau Lleol wrth gyflawni eu dyletswyddau ym maes digartrefedd.

Y tri offeryn statudol a ymgynghorwyd arnynt yw:

- Rheoliadau Digartrefedd (Bwriad) (Categoriâu Penodol) (Cymru) 2015.
- Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefnau Adolygu) (Cymru) 2015.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 15 Ionawr 2015 a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 26 Chwefror 2015.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion.

2. Ymatebion i'r Ymarfer Ymgynghori

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried wyth o gwestiynau penodol yn gysylltiedig â'r tri offeryn statudol, a chyfle i gynnig sylwadau ar faterion cysylltiedig oedd heb eu trafod yn benodol yn y ddogfen ymgynghori.

Roedd 27 o ymatebion i'r ymgynghoriadau. Cafwyd ymatebion gan sefydliadau, busnesau, grwpiau ac unigolion. Mae rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad 1. Pan fo ymatebwyr wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi eu manylion personol, maent yn cael eu disgrifio isod ac yn Atodiad A fel 'di-enw'.

Nid oedd pob un o'r ymatebwyr wedi ateb pob un o'r naw o gwestiynau a bu i rai ymatebwyr seilio eu hymatebion ar yr offeryn statudol dan sylw. Yn yr achosion hyn, ac yn benodol pan fo darnau o'r ymatebion hynny wedi'u

dyfynnu yn y ddogfen hon, mae pob un o'r ymatebion wedi'u rhoi gyda'i gilydd yn ôl yr offeryn statudol.

Rheoliadau Digartrefedd (Bwriad) (Categoriâu Penodol) (Cymru) 2015

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r categorïau a nodwyd gan yr ymgeisydd yn Rhan 1 y Rheoliadau?

Cwestiwn 2: A yw'r gweithdrefnau ar gyfer ystyried Prawf Bwriad sydd wedi'u nodi yn Rhan 2 yn briodol?

Roedd y mwyafrif llethol o ymatebwyr (21) o blaid y categorïau a'r broses a amlinellir yn y Rheoliadau drafft.

Fodd bynnag, gwnaethpwyd nifer o sylwadau a chafodd rhai newidiadau eu cynnig:

- O'r 27 o ymatebion, dim ond dau a awgrymodd newidiadau i'r categorïau y caiff Awdurdodau Lleol benderfynu eu hystyried at ddibenion bwriad. Roedd y ddau ymateb yn awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru ddileu y categori 16/17 mlwydd oed fel pwynt cychwyn i gyrraedd nod hirdymor Llywodraeth Cymru o ddileu bwriad.
- Roedd tri ymateb yn pryderu ynghylch y posibilrwydd y byddai polisi a deddfwriaeth yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddewis categorïau. Teimlwyd y byddai hyn yn creu amrywiadau ac anghydraddoldebau annerbyniol ledled Cymru, yn enwedig pan ragwelir y gallai Awdurdodau Lleol wneud penderfyniadau ar ba grŵp, neu grwpiau o unigolion bregus i'w hystyried o ran bwriad, yn seiliedig ar gostau yn hytrach nac angen.
- Roedd rhai ymatebion yn cyfeirio at y broses a benwyd yn y Rheoliadau ac, yn benodol, y diffyg cysylltu â rhanddeiliaid i helpu i lywio penderfyniadau Awdurdodau Lleol:
 - Roedd pedwar o blaid cynnwys cam ymgynghori gorfodol yn y broses y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ei dilyn er mwyn gwneud penderfyniad ar y categorïau i'w hystyried ar gyfer bwriad.
 - Roedd pum ymatebwr o blaid gosod rhagor o ofynion ar Awdurdodau Lleol i hysbysu pobl o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Byddai hyn yn helpu i sicrhau fod pob rhanddeiliad lleol perthnasol yn cael eu hysbysu o newidiadau yn y rhestr o gategoriâu.
- Er bod y mwyafrif o blaid y broses, roedd 3 o blaid ymestyn y cyfnod 14 diwrnod rhwng hysbysu pobl o benderfyniad Awdurdod Lleol a rhoi'r penderfyniad ar waith, i 28 diwrnod er mwyn rhoi cyfle i wasanaethau lleol arfer â hyn.

- Hefyd, roedd un ymatebwr o blaid cynnwys proses apelio fel y gall cynrychiolwyr lleol wneud cais i Awdurdodau Lleol ailystyried eu penderfyniadau ar ba categorïau y byddent yn eu hystyried. Awgrymwyd y gallai'r broses hon gynnwys Gweinidogion Cymru yn cadarnhau penderfyniad.

Bu i nifer o ymatebion unigol godi pwyntiau sy'n fwy priodol i'r ymgynghoriad ar God Canllawiau. Wrth baratoi'r adroddiad cryno hwn, mae'r ymgynghoriad ar y Cod yn dal ar agor. Mae'r pwyntiau a wnaethpwyd yn yr ymatebion wedi'u crynhoi isod, a chânt eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r Cod ei hun.

- Pryder y bydd y newidiadau i'r ddeddfwriaeth ynghylch bwriad teuluol, fydd yn cael ei weithredu yn 2019, yn arwain at deuluoedd yn gadael llety addas yn fwriadol er mwyn sicrhau eu bod yn cael llety gwahanol;
- Cais i fabwysiadu safonau cenedlaethol ar gyfer y prawf bwriad;
- Pryder ynghylch sut y caiff penderfyniadau bwriad eu gwneud mewn perthynas ag achosion o gamdrin domestig, sydd yn aml yn gorfodi'r dioddefwr i adael y cartref teuluol. Hefyd, bydd Gorchymyn Atal Trais Domestig hefyd yn aml yn gwahardd troseddwr o gyfeiriad penodol. Gall y ddau arwain at benderfyniadau bwriad amhriodol;
- Mae angen eglurhad o'r gofynion o ran tystiolaeth i alluogi'r ymgeisydd i gael eu dosbarthu o dan naill ai gategori blaenoriaethu angen 'camdrin domestig' neu gategori 'mewn perygl o gamfanteisio rhywiol';
- Mae angen mwy o eglurhad o'r diffiniad o 'wasanaethu' yng nghyd-destun y lluoedd arfog - a yw'r ymgeisydd yn gwasanaethu ar hyn o bryd neu a oes ganddo swyddogaeth o gefnogi'r lluoedd arfog;
- Sylw bod y Cod Canllawiau cyfredol yn wahanol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ym maes penderfyniadau bwriad am gyn-garcharorion;
- Pryder ynghylch y diffyg cefnogaeth i bobl sengl digartref; a
- Pryder ynghylch dileu'r blaenoriaethu angen cyffredinol ar gyfer carcharorion.

Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r materion ychwanegol sydd i'w hystyried o dan Rhan 1 y Gorchymyn drafft?

- Awgrymodd 3 ymatebwr ychwanegu anabledd iechyd, meddyliol a chorfforol
- Byddai un ymatebydd yn hoffi gweld diogelwch personol yr ymeisgydd yn cael ei gynnwys, yn ogystal â'r perygl o ymddygiad gwrth-gymdeithasol.
- Roedd un ymatebydd am i'r rhai sy'n gadael gofal fod yn fater ychwanegol.
- Codwyd fforddiadwyedd hefyd mewn 2 ymateb ble y gofynnwyd am fanylion ychwanegol, tra bo 2 ymatebydd arall yn awgrymu y byddai'n rhaid i'r llety fod wedi'i ddodrefnu er mwyn cael ei ystyried yn addas.
- Roedd pryder hefyd bod y materion ychwanegol yn y Gorchymyn yn rhy anelwig ac y gallent roi mwy o gyfle i herio yn seiliedig ar y dehongliad.
- Roedd tri o ymatebwyr yn teimlo bod cydymffurfio â'r gofyniad i ystyried y materion yn anodd oherwydd y diffyg llety yn eu hardaloedd.

- Roedd un ymatebydd - sefydliad - yn holi pa mor rhesymol oedd gorfod ystyried pob un o'r materion ychwanegol.
- Roedd un ymatebydd yn awgrymu bod y Gorchymyn yn pwysleisio mai yr Awdurdod Lleol ddylai ddangos bod cyn lleied â phosib o darfu ac nid yr ymgeisydd sydd i brofi ei achos.

Cwestiwn 4: A yw'r gofynion penodol yn Rhan 2 (sy'n nodi'r amgylchiadau y gellir ystyried llety yn anaddas) yn briodol?

O'r 27 o ymatebion, roedd 18 o blaid yr amgylchiadau ble yr ystyriwyd nad oedd llety yn addas. Nid oedd pedwar o blaid ac nid oedd 5 o'r ymatebion yn ateb y cwestiwn hwn.

- Roedd pump o'r ymatebwyr yn awgrymu nad oedd angen y gofyniad i denantiaeth ddrafft gael ei darparu i'r Awdurdod Lleol at ddibenion nodi bod llety yn addas er mwyn cyflawni Adran 75. Teimlwyd y byddai hyn yn creu rhagor o fiwrocratiaeth, gan gyfyngu ar y llety fyddai ar gael.
- Nid oedd un ymatebwr yn cytuno â'r term "Y Digartref" gan awgrymu ei newid i "Bobl Ddigartref"
- Roedd tri o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd y gofyniad i landlord gael ei ystyried yn "addas a phriodol" yn angenrheidiol oherwydd gofyniad Rhan 1 Deddf Tai 2014, fydd yn dechrau yn ddiweddarach yn 2015. Hefyd, ac ar hyn o bryd, nid oes angen y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i landlordiaid rentu eu heiddo.

Cwestiwn 5: A yw'r eithriadau i'r gofynion penodol yn briodol (gweler Erthyglau 7 ac 8)?

O'r 27 o ymatebion, roedd 19 yn cytuno â'r eithriadau i'r gofynion penodol. Nid oedd dau yn cytuno ac nid oedd 6 o'r ymatebion yn ateb y cwestiwn hwn.

- Roedd un ymateb yn awgrymu y dylai llety addas â chymorth nid yn unig gael ei ddarparu i unigolion, ond dylai hefyd gynnwys cartrefi sydd â phlant sy'n ddiabyddol a phobl sydd ag anghenion ieuchyd meddwl.

Cwestiwn 6: O ystyried Rhan 2, mae Erthygl 8 yn nodi nifer o derfynau amser pan fydd yn rhaid cynnig llety arall. A ydynt yn derfynau amser priodol?

Roedd deunaw o'r 27 o ymatebion yn teimlo bod yr amserlen yn briodol. Roedd tri ohonynt yn teimlo nad oeddent ac ni wnaeth 6 ohonynt ateb.

- Roedd dau o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cyfyngiad amser o bythefnos yn cyfyngu yn ormodol. Fodd bynnag, dywedodd 2 ohonynt eu bod yn teimlo ei fod yn dderbyniol.
- Roedd un ymateb yn teimlo bod yr amserlenni yn dderbyniol ar y cyfan, ond efallai na fyddai modd symud ymlaen ag achosion anodd o fewn yr amserlen hon.
- Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai'r amserlenni hyn yn anodd i Awdurdodau gwledig.

- Roedd un ymatebydd yn gofyn beth fyddai'n digwydd pe na fyddai gan yr Awdurdod Lleol unrhyw opsiwn arall.

Cwestiwn 7: Mae Erthygl 8(h) yn gwneud eithriad ar gyfer llochesi camdrin domestig. Ydy hyn yn briodol? Beth yw'r safon cywir?

O'r 27 o ymatebion, roedd 20 yn teimlo bod yr eithriadau ar gyfer llochesi camdrin domestig yn briodol. Nid oedd un ymatebwr yn cytuno ac ni atebodd 6 ohonynt.

- Roedd un ymateb yn teimlo nad oedd y safon sylfaenol yn ddigon da ar gyfer y llety a ddarperir i'r rhai sy'n dianc o drais domestig.
- Roedd un sefydliad yn awgrymu y dylai yr amserlen ar gyfer pobl mewn llety a rennir a oedd yn dianc o drais domestig fod yn fyrrach na rhannau cynharach y gorchymyn.
- Roedd un ymateb yn teimlo nad oedd yn realistig i awdurdodau ddarparu llety brys annibynnol oherwydd problemau gyda'r cyflenwad tai.
- Roedd un ymateb yn codi'r pwynt na fyddai llety sy'n cael ei ddefnyddio i helpu mewn achosion o drais domestig yn bodloni'r safon gofynnol ac efallai na fyddai ganddo fesurau diogelwch addas.

Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefnau Adolygu) (Cymru) 2015

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r weithdrefn ddrafft ar yr hawl i ofyn am adolygiad?

Mae mwyafrif llethol yr ymatebwyr (21) yn cytuno gyda'r gweithdrefnau drafft ar yr hawl i wneud cais am adolygiad fel a benwyd yn y Rheoliad. Dyma'r sylwadau penodol a'r newidiadau a awgrymwyd:

- Cafwyd rhai sylwadau mewn perthynas â'r gofyniad i gynnal adolygiad gan rhywun sy'n annibynnol o'r penderfyniad gwreiddiol yn ogystal â bod y swyddog hwnnw mewn swydd uwch na'r person a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol. Roedd un Awdurdod Lleol gwledig yn bryderus ynghylch anhawster gwahanu dyletswyddau o fewn cyfyngiadau staffio. Roedd dau Awdurdod Lleol arall hefyd yn bryderus ynghylch sut y byddai'r gofyniad yn cyd-fynd â'u dulliau adolygu presennol sydd wedi'u cynnwys mewn timau adolygu ar wahân.
- Roedd dau o'r ymatebion a gafwyd yn pryderu nad oedd y fframwaith deddfwriaethol newydd yn cynnwys yr hawl i lety, cyn adolygu fel yr oedd yn Neddf Tai 1996.
- Roedd tri ymateb yn teimlo y dylai'r terfyn amser a benwyd yn Rheoliad 2(2) a 2(3) fod yn 21 diwrnod, tra bod 2 ymateb yn teimlo y dylai'r terfyn amser fod yr un fath â'r Gorchymyn Cyfeirio Penderfyniadau, sef 5 diwrnod gwaith.
- Er mwyn lleihau nifer yr adolygiadau posibl, ac o gofio y byddai'r ymgeisydd yn cael ail gyfle am gymorth pe byddai'r penderfyniad yn negyddol, roedd 1 ymateb yn teimlo y gallai penderfyniad o dan adran 66 gael ei ddileu fel penderfyniad y mae modd ei adolygu.
- Roedd rhai ymatebion yn pryderu ynghylch y broses o gyfathrebu gyda'r ymgeisydd oedd wedi gofyn am adolygiad:

- Nid yw Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cyfyngu'r ymgeisydd i wneud cais am adolygiad yn ysgrifenedig yn unig. Er mwyn arbed dryswch ynghylch a oes cais wedi'i wneud, roedd 1 ymatebydd yn teimlo y dylid ail-gyflwyno ceisiadau ysgrifenedig;
- I gyferbynnu â hyn, roedd rhai yn pryderu ynghylch cynnwys ymgeiswyr sydd o bosib yn ei chael yn anodd i gyfathrebu yn ysgrifenedig. Roedd tri o'r ymatebwyr yn teimlo y gellid diwygio'r ddeddfwriaeth i ganiatáu mwy o gyfle ar gyfer cyfathrebu ar lafar yn ogystal ag yn ysgrifenedig.
- Roedd dau ymatebydd yn teimlo y dylai'r offeryn statudol gynnwys y gofyniad i Awdurdodau Lleol awgrymu bod ymgeisydd yn defnyddio gwasanaeth eiriolaeth wrth ofyn am sylwadau.

Cyffredinol

Cwestiwn 9: A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch y rheoliadau drafft?

O'r 27 ymateb, ni chafwyd unrhyw sylwadau ychwanegol gan 14 ohonynt. Roedd sylwadau yr 13 ymatebydd arall yn cwmpasu rhai o'r materion a godwyd mewn ymateb i'r cwestiynau a nodwyd yn gynt yn y grynoded hon. Mae sylwadau eraill wedi'u crynhoi isod:

- Pryder, yn ystod cyfnod pan fo Awdurdodau Lleol yn tynhau eu cyllidebau, y byddai'n bosib i'r gostyngiad sylweddol mewn cyllid i weithredu'r ddeddfwriaeth newydd ym mlwyddyn dau a thri gael effaith ar eu perfformiad, ac na fyddai'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud yn y blynyddoedd hynny yn addas.
 - Pryder bod gan Awdurdodau Lleol yr adnoddau i archwilio hanes blaenorol ymgeisydd er mwyn trefnu lleoliad priodol neu i wneud penderfyniad llwyddiannus ynghylch cymorth. Byddai menter i rannu mwy ar ddata Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o fudd.
 - Pryder y gallai rhoi cartrefi i gyn-garcharorion achosi problemau.
 - Pwysleisio bod monitro effaith y ddeddfwriaeth yn flaenoriaeth allweddol er mwyn deall y ddeddfwriaeth newydd a symud ymlaen.

Camau Nesaf

Bydd y ddogfen hon a'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Bydd hyn yn llywio'r penderfyniad ar y tri gorchymyn fydd yn cael eu cyflwyno cyn y cyfarfod llawn ar 21 Ebrill 2015.

Rhestr o Ymatebwyr

1. Kristina Martinsson,
2. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Sir Fynwy
3. Swyddfa Archwilio Cymru
4. Cyngor Bwrdeistref Sirol Ceredigion
5. Di-enw
6. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
7. Cyngor Bro Morgannwg
8. Uned Cyswllt yr Heddlu Llywodraeth Cymru (ar ran y pedwar o Heddluoedd Cymru)
9. Shelter Cymru
10. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
11. Cyngor Sir Powys
12. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
13. Cymorth Cymru
14. Cyngor Dinas Caerdydd
15. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
16. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (Gwasanaethau Cymdeithasol)
17. Crisis
18. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
19. Cyngor ar Bopeth Cymru
20. Cartrefi Cymunedol Cymru
21. Di-enw
22. Cyngor Sir Ynys Môn
23. Llamau
24. Cymdeithas Tai Bro Myrddin
25. Sefydliad Tai Siartredig Cymru
26. Solas Cymru
27. Grwp Cynefin